Hysbysiad o Gynnig

# CYNGOR SIR Y FFLINT
# FFORDD WRECSAM, PENYFFORDD
# (GWAHARDD GYRRU)
# GORCHYMYN 20-

Mae Cyngor Sir y Fflint, dan adrannau 1 (1) (d) ac (f) Deddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 (“Deddf 1984”) a phob pŵer arall sy’n galluogi, ac ar ôl ymgynghori â Phrif Swyddog yr Heddlu, yn unol â Rhan III Atodlen 9 Deddf 1984, yn bwriadu gwneud y Gorchymyn a’i effaith fydd:-

1) Gwahardd unrhyw gerbyd ar wahân i reidwyr beiciau pedal yrru drwy Ffordd Wrecsam, Penyffordd.

I bwrpas y Gorchymyn arfaethedig hwn,, bydd Ffordd Wrecsam yn golygu’r ffordd wasanaeth sy’n rhedeg yn ochr â’r A550 Ffordd Wrecsam, Penyffordd.

Gellir gweld copi o’r Gorchymyn arfaethedig a map yn dangos y darnau o ffyrdd y mae’r Gorchymyn arfaethedig yn ymwneud â nhw a datganiad o resymau’r Cyngor dros gynnig gwneud y Gorchymyn yn, arferol yn Llyfrgell, Sir y Fflint yn Cysylltu, Ffordd yr Iarll, Yr Wyddgrug, CH7 1AP, yn ystod oriau gwaith arferol neu fe gellir eu gweld ar ein gwefan yn www.siryfflint.gov.uk > Preswyl > Ffyrdd, Strydoedd a Theithio > Gorchmynion Rheoleiddio Traffig neu gallwch wneud cais am gopi o’r dogfennau drwy anfon e-bost at Streetscene@flintshire.gov.ukneu drwy ffonio 01352701234.

Gall unrhyw berson sy'n dymuno gwrthwynebu neu gyflwyno sylwadau ar y Gorchymyn arfaethedig wneud hynny’n ysgrifenedig, gan nodi'r rhesymau dros wrthwynebu, at y sawl a enwir isod erbyn dydd Gwener 7 Hydref 2022 gan ddyfynnu cyfeirnod KW/TRO/NW/WRP

Dyddiedig y 16ed diwrnod o Medi 2022



Katie Wilby
Prif Swyddog (Gwasanaethau Stryd a Thrafnidiaeth),
Neuadd y Sir,
Yr Wyddgrug,
Sir y Fflint. CH7 6NF.

**DYDDIEDIG xx xxxxxx 202-**

---

**GORCHYMYN**

**(WREXHAM ROAD, PENYFFORDD)**

**(GWAHARDD GYRRU)**

**CYNGOR SIR Y FFLINT 202-**

---


**Katie Wilby,**

**Prif Swyddog**

**(Gwasanaethau Stryd a Chludiant),**

**Neuadd y Sir,**

**Yr Wyddgrug,**

**Sir y Fflint,**

**CH7 6NF**

# GORCHYMYN
# (WREXHAM ROAD, PENYFFORDD)
# (GWAHARDD GYRRU)
# CYNGOR SIR Y FFLINT 202-

Mae Cyngor Sir y Fflint, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan Adrannau 1 (1) (d) ac (f) Deddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 ("Deddf 1984"), fel y'i diwygiwyd, a'r holl bwerau galluogi eraill a roddwyd iddo, ac ar ôl ymgynghori â Phrif Swyddog yr Heddlu yn unol â Rhan III Atodlen 9 Deddf 1984, drwy hyn yn gwneud y Gorchymyn canlynol:

1. At ddibenion y Gorchymyn arfaethedig hwn, bydd Wrexham Road – yn golygu'r ffordd wasanaeth sy'n rhedeg yn gyfochrog â'r A550 Wrexham Road, Penyffordd.

2. Ni chaiff unrhyw un achosi na chaniatáu i unrhyw gerbyd, ac eithrio beic pedalau, yrru trwy Wrexham Road, Penyffordd.

3. Mae'r gwaharddiadau a'r cyfyngiadau a roddir gan y Gorchymyn hwn yn ychwanegol at unrhyw gyfyngiad neu ofyniad a roddir gan unrhyw reoliad a wnaed neu sy'n cael effaith fel pe baent wedi'u gwneud dan Ddeddf 1984, neu gan neu dan unrhyw ddeddfiad arall, ac nid yn rhanddirymiad iddynt.

4. Bydd Deddf Dehongli 1978 yn berthnasol ar gyfer dehongli'r Gorchymyn hwn fel mae'n berthnasol ar gyfer dehongli Deddf Seneddol.

5. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar xx xxxxx 202- a gellir cyfeirio ato fel Gorchymyn (Wrexham Road, Penyffordd) (Gwahardd Gyrru) Cyngor Sir y Fflint) 202-

**RHODDWYD SÊL GYFFREDIN** )
**CYNGOR SIR Y FFLINT** )
yn y fan hon )
ar y xx diwrnod hwn o xxxxxxxxxxx 20- )
ym mhresenoldeb:- )

**Y CADEIRYDD**

**RHEOLWR Y GWASANAETHAU CYFREITHIOL/**

**PRIF SWYDDOG LLYWODRAETHU**

## CYNGOR SIR Y FFLINT

## (FFORDD WRECSAM, PENYFFORDD)
## (GWAHARDD GYRRU)
## GORCHYMYN 20-

## DATGANIAD O RESYMAU DROS ARGYMELL GWNEUD Y GORCHYMYN

Mae Cyngor Sir y Fflint yn bwriadu cyflwyno cyfyngiad Gwahardd Gyrru ar Ffordd Wrecsam, Penyffordd. At ddibenion y Gorchymyn arfaethedig hwn, bydd ‘Ffordd Wrecsam’ yn golygu'r ffordd wasanaeth sydd yn rhedeg yn paralel gyda’r A550 Ffordd Wrecsam, Penyffordd.

Ers peth amser, mynegwyd pryder ynglŷn ag ymddygiad gwrthgymdeithasol yn y ffordd wasanaeth sydd yn effeithio ar amwynder a chymeriad yr ardal.

Felly, cynigir gwahardd traffig trwodd yn y lleoliad yma, ond caniateir llwybr i feicwyr a cherddwyr.

Drwy weithredu’r Gorchmynion Rheoleiddio Traffig hwn, bydd yn helpu i atal ymddygiad gwrthgymdeithasol sydd yn andwyol i’r amwynder a chymeriad yr ardal, tra’n gwella diogelwch ar y ffordd hefyd.

Ceir manylion y cynigion yn yr Hysbysiad Cyhoeddus ac maent wedi’u cynnwys yn y Gorchymyn Drafft arfaethedig.

Dyddiedig y 16fed diwrnod o Medi 2022

Katie Wilby
Prif Swyddog (Gwasanaethau Stryd a Thrafnidiaeth),
Neuadd y Sir,
Yr Wyddgrug,
Sir y Fflint.
CH7 6NF

## KEY

- Proposed 3m Shared Footway/Cycle use Facility (blue line)
- Proposed 6 Concrete Bollards with fluorescent strip to block the road for through traffic. (red square)
- Proposed 1 Concrete Bollard and a 4.6m Strong Metal field gate with either metal or concrete posts, The gate needs to be able to be locked securely to block the road for through traffic but allowing access for construction and repairs. (blue square)
- Proposed Area that is going to be Closed to Traffic. (hatched area)


Proposed 410m² of carriageway planing and patching with 10mm Tarmac within the Lay-by.

1). Proposed New Sign assemblies 1, 2, 3, and 4 on New 89mm Post @ 2.1m Mountain Height Detail B (S5 foundation).

2). All carriageway markings and signs have been specified in accordance with The Traffic Signs Regulations and General Directions 2016.




**' Detail J '**
Proposed Sign Assemblies 1, 2, 3 and 4




Example of Metal Field Gate.



Example of Concrete Bollard



This map is reproduced from Ordnance Survey material with the permission of Ordnance Survey on behalf of the Controller of Her Majesty's Stationery Office. © Crown Copyright. Unauthorised reproduction infringes Crown Copyright and may lead to prosecution or civil proceedings. Licence number 100023386.Flintshire County Council, 2018.

| PRELIMINARY | APPROVAL | CONSTRUCTION | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | |
| | | | | |
| Ph/Rev. | Revision Details | Rev.by | Chk.by | Date |


Cyngor Sir y Fflint
Flintshire County Council

Katie Wilby
Chief Officer (Streetscene and Transportation).
Prif Swyddog (Gwasanaethau Stryda Thafnidiaeth).
Streetscene
County Hall, Mold, CH7 6NF
Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug. CH7 6NF


Project:

# Safer Routes In the Community 2021/22

## Wrexham Road
## Hope

## General Arrangement

(Sheet 1 of 1)


Flintshire County Council - Environment Directorate , County Hal l , Mold CH7 6NF

Contact Name: Jess Welstead — Telephone: 01352 70????
Drawn by: Nick Williams — Fax No: 01352 70
Checked by: Jayne Rodgers — Date: November 2021 — Sheet 1 of 1


| Scales at A0: | Drawing No: | Phase/Rev: |
|---|---|---|
| 1:NTS | 2021/LAYBY/A550HOPE | P1 |